
age Cymru




# Geiriau

# Bingo barddoniaeth

**Mae barddoniaeth yn gallu gwneud i bobl deimlo'n anesmwyth weithiau.**

**Mae chwarae Bingo Barddoniaeth yn annog pobl i awgrymu eu hoff gerddi a hefyd creu rhywbeth newydd ohonyn nhw.**

- **Ysgrifennwch gerdd enwog**
- **Torrwch bob llinell allan**
- **Rhowch bob llinell mewn het neu fag**
- **Gofynnwch i rywun ddewis llinell a'i darllen yn uchel**
- **Nawr gwnewch gerdd neu bennill newydd yn dechrau gyda'r llinell yma o farddoniaeth**

Mae edrych ar dudalen wag a cheisio ysgrifennu cerdd yn gallu bod yn anodd.

Mae'r ymarfer yma'n rhoi man cychwyn da i bobl.

1

age Cymru




# Geiriau

# Adar

**Mae adar yn gallu bod yn thema wych ar gyfer sesiwn creadigol. Dechreuwch drwy ofyn cwestiwn i’ch preswylwyr, fel:**
**‘Beth ydi’ch hoff aderyn?’**

Nesaf, siaradwch gyda’ch preswylwyr am eu hatgofion am adar, y synau mae gwahanol adar yn eu gwneud, ac am y gwahanol ddywediadau sy’n cynnwys adar:

**‘Fel hwyaden at ddŵr’**

**‘Doeth fel tylluan’**

**‘Adar o’r unlliw ehedant i’r unlle’**

Mae posib arddangos unrhyw eiriau, atgofion neu straeon ar bapur, eu hysgrifennu’n gerdd fer neu eu gwneud yn symudolyn siâp adar.

1



# Geiriau

# Stori wedi'i hysbrydoli gan gelf

**Un ffordd wych o gael pobl i feddwl am straeon neu farddoniaeth yw drwy ddechrau gyda llun.**

**Chwiliwch am lun, ffotograff neu ddelwedd o ffilm neu raglen deledu.**

**Trafodwch y llun gyda'r preswylwyr ac wedyn dechrau gofyn cwestiynau creadigol:**

- **Pwy ydi'r bobl yn y llun?**
- **Beth ydi eu gwaith nhw?**
- **Beth maen nhw'n ei wneud nawr?**
- **Ble maen nhw'n mynd?**

Cofiwch annog y preswylwyr i greu stori fer a syml am y cymeriadau a'r sefyllfa sydd i'w gweld yn y llun.

Weithiau mae'n haws creu stori o lun nag o'r cof.

2



# Geiriau

# Bocs sbarduno

**Mae creu bocs sbarduno'n ffordd hawdd o helpu preswylwyr i ddechrau meddwl yn fwy creadigol. Gallech gynnwys:**

- **Ffotograffau**
- **Erthyglau papur newydd**
- **Pecynnau bwyd**
- **Gwrthrychau naturiol (plu, mwsogl, ac ati)**
- **Hen allweddi**
- **Cerrig mân a chregyn**
- **Papurau fferins lliwgar**

Gofynnwch i'r preswylwyr ddewis rhywbeth allan o'r bocs ac wedyn eu hannog i siarad am y gwrthrych. Gallent ysgrifennu cerdd amdano, ysgrifennu eu hatgofion amdano, neu greu stori am yr hyn maen nhw wedi'i ddarganfod.

Mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd.

3 



age Cymru
APPLES ARE FALLING
OFF THE TREE
UNTIDY LEAVES,
SOMETIMES SNOW
THE TREES COLOURS
ARE CHANGING TO AUTUMN
SHADES
UMBRELLAS FOR RAIN
+SLEET, WALKING
ACROSS HEDGES,
DIGGING OUR WAY
THROUGH NANT Y CAFN
TO GET A LOAF
MOTHER SITTING BY THE


# Geiriau

# Cerddi acrostig

**Mae creu cerdd acrostig yn hwyl ac yn hawdd.**

**Dewiswch air i ddechrau. Gall fod yn unrhyw beth: tymor, fel yr 'Hydref', diwrnod o'r wythnos, neu enw preswylydd.**

**Ysgrifennwch y gair yn fertigol ar dudalen fawr:**

**H**

**Y**

**D**

**R**

**E**

**F**

**Ewch ati i annog y preswylwyr i ysgrifennu pob llinell o'r gerdd, gan ddechrau gyda'r llythrennau hynny. Dylai pob llinell ddweud rhywbeth am edrychiad, arogl, teimlad, blas ac atgofion yr Hydref. Nawr rhowch gynnig arni gyda phob tymor!**

1